



Mae Cyngor Cymuned Henllan yn chwilio am Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol

Rhaid dychwelyd ceisiadau erbyn 10 Gorffennaf 2025

Cyflog: – Graddfa gyflog Pwynt 14–16 NJC/SLCC (£15.08 yr awr) yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau.

Mae'r swydd yn cael ei chynnig fel rôl Ran-Amser, am 14 awr y mis a fydd yn cynnwys presenoldeb gyda'r nos mewn cyfarfodydd.

Lleoliad: Gweithio gartref

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer swydd Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i arwain a rheoli gweinyddiaeth, adnoddau a chyllid Cyngor Cymuned Henllan, a darparu cyngor a chefnogaeth effeithiol i aelodau etholedig.

Rydym yn chwilio am unigolyn llawn cymhelliad, frwdfrydig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n cymuned. Byddwch yn cael eich addysgu i safon dda ac yn meddu ar Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) neu byddwch yn barod i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd misol y cyngor (fel arfer nos Fawrth).

Manyleb y Person

Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol Addysg a Chymwysterau Hanfodol Addysg o safon dda, CILCA neu'n barod i ddechrau'r broses o fewn 1 mis yn y swydd. Gwybodaeth a Phrofiad Blaenorol: Gwybodaeth am rolau a fframwaith cyfreithiol llywodraeth leol a Chynghorau Cymuned yn arbennig. Rheoli cyllideb a systemau ariannol. Cynhyrchu agendâu a chynhyrchu cofnodion cyfarfod. Dealltwriaeth a defnydd da o Microsoft Office (neu feddalwedd cyfatebol). Wedi ymrwymo i wasanaeth cwsmeriaid a gwasanaethu'r gymuned. Y gallu i fynychu cyfarfodydd gyda'r nos Trwydded yrru.

Sgiliau Cymraeg: Er mwyn cydbwysu'r sgiliau o fewn y Cyngor, mae angen gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y swydd hon. Rydym wedi ymrwymo i'n hiaith Gymraeg ac yn falch o'n diwylliant Cymreig. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg ac ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn llai ffafriol na'i gilydd.

Disgrifiad Swydd

Mae Cyngor Cymuned Henllan (HCC) yn cynnwys deg cynghorydd a thri Chynghorydd Sir sy'n cyfarfod 11 gwaith y flwyddyn yn cwmpasu Pentref Henllan. ([Ward Dinbych Caledfryn Henllan](#)).

I wneud cais, anfonwch eich CV ynghyd â llythyr eglurhaol at: ian.carrie@pc2kworld.co.uk

Yn eich llythyr eglurhaol, nodwch eich rheswm dros wneud cais a dangoswch, drwy ddefnyddio enghreifftiau, sut mae eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad yn bodloni pob un o ofynion hanfodol manyleb y person a chymaint o ofynion dymunol â phosibl. Tynnwch ar eich profiadau perthnasol; gan gynnwys cyflogaeth â thâl, gwaith gwirfoddol, profiadau teuluol a gweithgareddau hamdden fel tystiolaeth.

Mae Cyngor Cymuned Henllan yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned.